






ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
i ddefnyddwyr ynni



Sut i arbed arian a
defnyddio llai o ynni

Fersiwn Hawdd ei Darllen

Sut i arbed arian a defnyddio llai o ynni



Mae'r daflen wybodaeth hon yn esbonio sut y gallwch reoli eich ynni. Mae'n dangos sut y gallwch gael cymorth i leihau eich costau a'r hyn y gallwch chi ei wneud i arbed ynni.



Efallai yr hoffech gael rhywun gyda chi pan fyddwch yn edrych ar y daflen hon.

Siarad â'ch cyflenwr

Gwnewch yn siŵr eich bod ar y tariff gorau

I'd like more detail

About your tariff

This information will help you to compare your current tariff with others available.

Your electricity tariff

Tariff name

Payment method

End date

Exit fee (if you switch supplier before end date)



Tariffau yw'r tâl y mae cyflenwyr ynni yn ei godi arnoch ar gyfer nwy a thrydan.

Siaradwch â'ch cyflenwr neu edrychwch ar ei wefan i weld pa dariffau sydd ar gael ganddo ac a allwch dalu llai.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.

Mae'n ddefnyddiol os gallwch ddarparu rhai darlenniadau mesurydd, os yw'n bosibl, yn ogystal â'ch bil diweddaraf.

Mae hyn er mwyn i'ch cyflenwr ynni wybod faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio, a faint y mae'n ei gostio i chi.

Os ydych yn talu am ynni gan ddefnyddio mesurydd rhagdalau neu gredyd safonol, gofynnwch i'ch cyflenwr newid eich dull o dalu i Ddebyd Uniongyrchol os gallwch chi. Gall hyn helpu i leihau eich tariff.





Gallwch hefyd ddefnyddio gwefan cymharu prisiau i weld a all cyflenwr arall gynnig tariff gwell i chi.

Gweler rhestr o wasanaethau cymharu rydym wedi eu cymeradwyo ar ein gwefan yn **ofgem.gov.uk/confidence-code**.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.





Rhaid i'ch bil ynni gynnwys gwybodaeth am dariff rhataf eich cyflenwr sy'n bersonol i chi a faint y gallwch ei arbed. Bydd y bil hefyd yn rhoi costau amcangyfrifedig i chi ar gyfer y flwyddyn i ddod.



Os byddwch yn rhoi darlleniadau mesurydd i'ch cyflenwr yn rheolaidd byddwch yn cael biliau cywir yn lle amcangyfrifon. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn talu mwy na'r hyn rydych wedi'i ddefnyddio.

Os ydych yn cael trafferth



Os ydych yn cael trafferth talu eich biliau nwy neu drydan neu os ydych mewn dyled, dylech gysylltu â'ch cyflenwr a gweld pa help y gallant ei roi i chi.


Gall eich cyflenwr wneud y canlynol:

- gweithio gyda chi er mwyn cytuno ar gynllun talu rheolaidd (er enghraifft bob wythnos neu bob mis). Gall hyn helpu i rannu eich biliau fel eu bod yn fwy fforddiadwy i chi.
- rhoi eich enw ar restr o gwsmeriaid sydd angen help neu gymorth ychwanegol.
- awgrymu cynlluniau a grantiau er mwyn helpu gydag arian sydd o bosibl yn ddyledus gennych. Gweler **[gov.uk/energy-grants-calculator](https://www.gov.uk/energy-grants-calculator)**

Edrychwch ar eich bil nwy neu drydan i ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cyflenwr.

Os nad ydych yn gwybod pwy yw eich cyflenwr, gweler **[ofgem.gov.uk/find-my-supplier](https://www.ofgem.gov.uk/find-my-supplier)**.

Newid tariff neu gyflenwr



Mae llawer o gyflenwyr ynni sy'n gallu cynnig tariffau a gwasanaethau gwahanol sy'n addas i chi.

Os byddwch yn cymharu tariffau'n rheolaidd gallwch wneud yn siŵr eich bod yn cael y fargen orau.



Gall gwneud hyn hefyd ddangos os gallech dalu llai drwy newid i rywbeth gwahanol.

Sut i newid



Gallwch ffonio cyflenwyr ynni gwahanol neu ddefnyddio gwefan cymharu prisiau er mwyn dod o hyd i dariff neu gyflenwr gwell.

Mae rhestr o wasanaethau cymharu ar-lein a gymeradwyir gan Ofgem ar gael yn **ofgem.gov.uk/confidence-code**.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.

Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am gyflenwyr ac mae ganddo adnodd cymharu. Gweler **energycompare.citizensadvice.org.uk**.

Gall gymryd hyd at 21 o ddiwrnodau i newid ac mae gennych 14 o ddiwrnodau i ganslo contract os byddwch yn newid eich meddwl. Mae rhai cyflenwyr hefyd yn cynnig gwasanaeth gwarant newid. Dysgwch fwy yn **energyswitchguarantee.com**.

Beth fydd ei angen arnoch




Mae newid yn hawdd, yn gyflym ac yn ddiogel. Mae'n ddefnyddiol cael y canlynol wrth law:

- enw eich tariff ynni a'ch cyflenwr ynni presennol
- faint rydych chi'n ei wario ar nwy a thrydan.

Cyn i chi newid, dylech hefyd ystyried y canlynol:

- a allai eich contract presennol godi ffi gadael arnoch.
- gallai eich tariff neu gyflenwr dewisol newydd godi ffi gadael os byddwch yn dewis gadael y contract yn gynnar.
- os ydych yn cael cymorth ychwanegol fel Gostyngiad Cartrefi Cynnes neu'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth, a yw eich cyflenwr newydd yn rhan o'r cynlluniau hyn (gweler tudalen 14).



Ad-dalu dyled a newid cyflenwr



ddyledus

Os ydych wedi bod mewn dyled i'ch cyflenwr ers llai na 28 diwrnod, gallwch ddal i newid cyflenwr. Caiff unrhyw arian sy'n ddyledus gennych ei ychwanegu i'ch bil terfynol gan eich hen gyflenwr.



Os ydych wedi bod mewn dyled i'ch cyflenwr ers mwy na 28 diwrnod, bydd angen i chi drefnu i ad-dalu'r ddyled i ddechrau.



Os mai eich cyflenwr sydd ar fai eich bod mewn dyled, ni all eich atal rhag newid cyflenwr.

Arbed ynni

Gwneud eich cartref yn fwy effeithlon



Gall gwneud gwelliannau i'ch cartref fel inswleiddio gwell leihau eich biliau ynni. I weld pa wahaniaeth y gallant ei wneud, ewch i energysavingtrust.org.uk/resources/tools-calculators.



Yna ymchwiliwch i fentrau'r llywodraeth (Gweler tudalen 14) a all eich helpu i dalu am welliannau i'r cartref:

- Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni a'r Fargen Werdd.
- Yng Nghymru, Nyth.
- Yn yr Alban, Home Energy Efficiency Programme Scotland (HEEPS).

Ewch i gov.uk/energy-grants-calculator. Ar gyfer Cymru, ffoniwch 0808 808 2244. Yn yr Alban, ffoniwch 0808 808 2282.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.

Mesuryddion deallus



Mesuryddion nwy a thrydan newydd yw mesuryddion deallus a fydd yn disodli'r mesuryddion hŷn, traddodiadol yn ein cartrefi. Maent yn:

- dangos sgrin arddangos yn eich cartref a all eich helpu i olrhain faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio. Mae hon hefyd yn dangos costau mewn punnoedd a cheiniogau.
- cymryd darlleniadau rheolaidd ac yn rhannu'r darlleniadau hyn â'ch cyflenwr ynni yn awtomatig, sy'n golygu nad oes rhaid i chi wneud hyn yn bersonol. Mae hyn yn sicrhau y byddwch yn cael biliau cywir yn lle amcangyfrifon.

Gallai'r pethau hyn eich helpu i arbed arian ar eich biliau ynni.

Mae pob cartref yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael cynnig mesurydd deallus am ddim. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch cyflenwr ynni.

Awgrymiadau cyffredinol

Dilynwch yr awgrymiadau hyn i osgoi gwastraffu ynni. Gallai gwneud hyn helpu i leihau eich costau ynni.



Defnyddiwch amserydd ar eich system gwres canolog. Trefnwch i'r gwres a'r dŵr poeth ddod ymlaen pan fydd eu hangen yn unig.



Caewch eich llenni pan fydd yn nosi er mwyn atal y gwres rhag dianc drwy'r ffenestri. Sicrhewch nad oes drafftiau hefyd. Seliwch fylchau o amgylch drysau â rhimynnau drafftiau.



Wrth ddefnyddio peiriant golchi llestri, golchi dillad neu sychu dillad, ceisiwch ei lenwi.

Mae llwyth cyfan yn defnyddio llai o ynni na dau lwyth hanner llawn.



Os oes gennych danc dŵr poeth, gosodwch thermostat y tanc ar 60°C (140°F).



Defnyddiwch fylbiau golau sy'n arbed ynni.



**Peidiwch â gadael
teclynnau mewn
modd segur na gadael
gliniaduron na ffonau
symudol yn y plwg
gwefru yn ddiangen.**



**Cofiwch ddiffodd
goleuadau pan fyddwch
chi'n gadael ystafell.**



**Trowch dapiau i ffwrdd
yn iawn - mewn un
wythnos yn unig, gall
tap dŵr poeth sy'n
diferu wastraffu digon
o ddŵr poeth i lenwi
hanner baddon.**



**Os byddwch yn
defnyddio tegell, ceisiwch
ferwi'r dŵr sydd ei angen
arnoch yn unig.**



**Sychwch eich dillad yn
yr awyr agored pan fydd
hi'n braf.**

Cynlluniau, grantiau a chapiau ar brisiau

SIEC

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

£



Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Mae rhai cyflenwyr ynni yn cynnig ad-daliad a help i bobl hŷn, pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd difrifol neu sydd ar incwm isel.

Ffoniwch eich cyflenwr i weld a ydych yn gymwys, neu ewch i **gov.uk/the-warm-home-discount-scheme**.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.



Department
for Work &
Pensions



Cynllun Taliad Tanwydd Gaeaf

Gallai hwn fod rhwng £100 a £300 er mwyn eich helpu i dalu eich biliau gwresogi os cawsoch eich geni ar 5 Tachwedd 1953 neu cyn hynny. Y Taliad Tanwydd Gaeaf yw hwn.

Fel arfer, byddwch yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal nawdd cymdeithasol arall (nid Budd-dal Tai, Gostyngiad yn y Dreth Gyngor na Budd-dal Plant).

Os ydych yn gymwys ond nad ydych yn cael eich talu'n awtomatig, bydd angen i chi ei hawlio.

Cadarnhewch p'un a ydych yn gymwys drwy ffonio 0800 731 0160 neu ewch i www2.dwp.gov.uk/tps-directgov/en/contact-tps/winterfuel.asp

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.

Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth



Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth

Os oes gennych anghenion gofal penodol (e.e. os ydych yn hŷn neu os oes gennych anghenion oherwydd iechyd neu anabledd), gall eich cyflenwr eich rhoi ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.


Mae bod ar y rhestr hon yn golygu y gallwch gael gwasanaethau ychwanegol am ddim gan gynnwys cymorth â blaenoriaeth os bydd eich cyflenwad pŵer yn methu, gwasanaeth darllen mesurydd a dulliau cyfathrebu penodol.

Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni am fwy o wybodaeth.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.

Grantiau ynni

Gallwch ddod o hyd i ba grantiau a thaliadau'r llywodraeth sydd ar gael er mwyn eich helpu i reoli eich costau ynni drwy ddefnyddio adnodd cyfrifo grantiau llywodraeth y DU. Gweler **[gov.uk/energy-grants-calculator](https://www.gov.uk/energy-grants-calculator)**.



Capiau ar brisiau

Mae Ofgem, rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr, a llywodraeth y DU wedi cyflwyno capiau ar brisiau er mwyn diogelu defnyddwyr, yn enwedig pobl sy'n fwy agored i niwed.

Canfyddwyd nad yw'r farchnad ynni yn gweithio i bawb. Mae'r bobl nad ydynt wedi newid tariff na chyflenwr ynni yn talu prisiau annheg.


Mae capiau ar brisiau ynni yn cyfyngu ar faint o dâl y gall cyflenwyr godi arnoch fesul uned o nwy neu drydan.

Maent yn seiliedig ar y costau mae Ofgem yn cyfrifo y mae angen i gyflenwyr eu gwario i gael ynni i'ch cartref.

Drwy'r capiau ar brisiau, mae Ofgem yn bwriadu sicrhau bod defnyddwyr yn talu pris tecach am eu hynni ac yn cael eu diogelu er mwyn sicrhau na fydd cyflenwyr yn codi gormod arnynt.

Nid yw capiau ar brisiau yn cyfyngu ar gyfanswm eich bil. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn defnyddio mwy o ynni yn y gaeaf felly bydd eich bil yn uwch.



I'd like more detail

About your tariff

This information will help you to compare your current tariff with others available.

Your electricity tariff

Tariff name

Payment method

End date

Exit fee (if you switch supplier before end date)

Based on your actual usage to date 2498.00 kWh



Gallai'r canlynol eich diogelu:

- **cap ar brisiau 'rhagdalau'** (sef y 'tariff diogelu' weithiau). Mae hyn yn berthnasol os byddwch yn defnyddio mesurydd rhagdalau i dalu am eich ynni. Mae'r cap hwn yn para tan 2020.
- **cap ar brisiau 'tariff diofyn'**. Mae hyn yn berthnasol os ydych ar dariff ynni 'amrywiadwy safonol' neu dariff nad ydych wedi'i ddewis (tariff 'diofyn'). Dechreuodd y cap hwn ar 1 Ionawr 2019.

Os ydych yn cael Gostyngiad Cartrefi Cynnes y Llywodraeth ac rydych ar dariff 'amrywiadwy safonol' neu dariff 'diofyn', roeddech wedi eich diogelu gan y cap ar brisiau rhagdalau tan ddiwedd 2018. Trosglwyddodd y mesur diogelwch hwn i'r cap ar brisiau tariff diofyn ar 1 Ionawr 2019.

Ni fydd eich prisiau wedi'u diogelu gan y capiau os byddwch wedi dewis bod ar dariff ynni tymor penodol.

Mae'r tariffau hyn yn fwy tebygol o gynnig gwerth da.

I'd like more detail

About your tariff

This information will help you to compare your current tariff with others available.

Your electricity tariff

Tariff name


Payment method

End date

Exit fee (if you switch supplier before end date)

Based on your actual usage to date

2498.00 kWh



ANFANTAIS

DIM AR GAEL

Tariffau yw'r tâl y mae cyflenwyr ynni yn ei godi arnoch ar gyfer nwy a thrydan.

Mae tariff 'diofyn' neu dariff 'amrywiadwy safonol' yn dariff ynni sylfaenol gan eich cyflenwr. Maent yn dueddol o fod yn gymwys os nad ydych wedi chwilio am fargen well. Yn aml nid ydynt yn cynnig gwerth da ac maent yn ddrutach na chytundeb contract tymor penodol nad yw'n ddiodyn, y gallwch ddewis newid iddo.

Gallech gael eich rhoi ar dariff diofyn os daw eich contract tymor penodol i ben ac nad ydych wedi dewis tariff newydd.

Gall contractau tymor penodol olygu na ellir newid y pris y byddwch yn ei dalu am bob uned o ynni rydych chi'n ei defnyddio am flwyddyn neu fwy. Mae'n rhaid i chi adnewyddu contractau tymor penodol.

Nid oes angen i chi wneud dim i ddiogelu eich pris – eich cyflenwr fydd yn cymhwyso'r capiau.

Gall eich cyflenwr ddweud wrthych os oes cap ar bris eich contract ynni. Mae'n rhaid i'ch cyflenwr hefyd ysgrifennu atoch i ddweud wrthych os bydd eich tariff yn newid mewn ffordd a allai eich rhoi o dan anfantaish, neu os na fydd y tariff rydych arno ar gael mwyach.



Hyd yn oed os oes cap ar bris eich ynni, dylech chwilio am gynigion gwell o hyd i weld a allech arbed mwy o arian drwy newid i dariff neu gyflenwr gwahanol.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.

Mae'n debygol y bydd cyflenwyr nwy a thrydan yn gallu cynnig tariffau gwahanol a allai arbed hyd yn oed mwy o arian i chi nac aros ar gontract ynni sydd â chap ar y pris.

Gall eich cyflenwr ddweud wrthyh am ffyrdd y gall roi gwybodaeth i bobl anabl.

Efallai na fydd cyflenwyr a gwefannau cymharu prisiau yn dangos y pris wedi'i gapio ar gyfer tariffau 'diofyn' a thariffau 'amrywiadwy safonol' er mwyn i chi ei gymharu â chynigion eraill nes bod y cap ar brisiau tariffau diofyn yn gymwys ar 1 Ionawr 2019.

Cymorth arall

Efallai y gall elusennau lleol a chanolfannau cyngor roi grantiau i bobl sydd angen help gyda'u costau ynni. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael rhagor o fanylion. Ewch i **gov.uk/find-local-council**.

Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i wneud hyn.



Rhagor o wybodaeth a chymorth

Gall y sefydliadau canlynol eich helpu gyda rhagor o wybodaeth. Efallai y byddwch am ofyn i rywun eich helpu i gysylltu â nhw.



Cymorth i ddefnyddwyr

Cyngor ar Bopeth

I gael cymorth cyffredinol ar faterion defnyddwyr gan gynnwys ynni, dyledion a gwybodaeth gyfreithiol.

www.citizensadvice.org.uk

Ffôn: 03454 404 0506

Gwasanaethau'r Ombwdsmon: (Cymru, Lloegr a'r Alban)

Os gallwch ddatrys anghydfod â chyflenwr.

www.ombudsman-services.org/energy

Ffôn: 0330 440 1624



SCOPE

= Equality for disabled people

Scope UK

Mae'n rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl anabl.

www.scope.org.uk

Ffôn: 0808 800 3333



**energy
saving
trust**

Age UK

Mae'n rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn.

www.ageuk.org.uk/

Ffôn: 0800 055 6112

Arbed Ynni

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Mae'n darparu cyngor am ddim ar wresogi cartrefi ac effeithlonrwydd ynni yn y DU.

www.energysavingtrust.org.uk



**Department
for Work &
Pensions**



**the Money
Advice Service**



Cymorth ariannol

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

I gael gwybodaeth am fudd-dliadau a sut i wneud cais.

www.gov.uk/browse/benefits

Gwasanaeth Cynggori Ariannol

I gael gwybodaeth ac adnoddau er mwyn eich helpu i reoli arian a dyled.

www.moneyadviceservice.org.uk

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Cyngor ar ddyled, adnoddau ac awgrymiadau defnyddiol am ddim.

www.nationaldebtline.org/

Ceir rhagor o wybodaeth am reoli eich costau ynni a'r daflen hon mewn fformatau gwahanol ar y wefan ofgem.gov.uk/energy-support.

v1.1

Ysgrifennwyd y daflen hon gan bobl yn Ofgem. Nhw yw'r rheoleiddiwr ynni ym Mhrydain Fawr. Mae'r wybodaeth yn gywir ym mis Tachwedd 2018.

www.ofgem.gov.uk